



Cynllun
Datblygu
Lleol 2021 > 2036

Cyngor Caerdydd - Ionawr 2025

Cynllun Adnau

Asesiad o'r Effaith
ar Iechyd



www.cdllcaerdydd.co.uk



02920 872087



CDL@caerdydd.gov.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English



Adroddiad yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI) Cyfranogol Cyflym - Cynllun Adneuo y Cynllun Datblygu Lleol Newydd

Cyngor Caerdydd

Ionawr 2025

Awduron: Cheryl Williams, BIP Caerdydd a'r Fro; Stuart Williams, Cyngor Caerdydd

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad isod yn amlinellu canfyddiadau'r gweithdy AEI Cyfranogol Cyflym a gynhaliwyd ar 2 Mai 2024. Bydd y canlyniadau'n sail i baratoi Cynllun Adneuo CDLI Newydd Cyngor Caerdydd. Cynhelir mewnwelediad a chyd-destun pellach ar gyfer y prosiect gan Gyngor Caerdydd, gan gynnwys; cyd-destun strategol, cynlluniau manwl, tystiolaeth a data proffil cymunedol. Cyfeirir at y rhain lle bo'n briodol.

1.1 Cynllun Datblygu Lleol Newydd

Mae deddfwriaeth a pholisi cynllunio cenedlaethol yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i lunio Cynllun Datblygu Lleol (CDLI). Mae'r CDLI yn gynllun defnydd tir ar gyfer ardal ac mae'n nodi'r gofynion, y polisiau a'r cynigion penodol ar gyfer defnyddio a datblygu tir.

Mabwysiadwyd CDLI presennol Caerdydd gan y Cyngor ar 26 Ionawr 2016 ac mae'n nodi fframwaith cynllunio'r Cyngor ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn y ddinas dros y cyfnod o 2006 i 2026.

Mae Cyngor Caerdydd yn paratoi'r CDLI Newydd i gwmpasu cyfnod y cynllun 2021 i 2036. Y cam paratoi presennol yw cynhyrchu'r Cynllun Adneuo, a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol yn ystod hydref 2024. Yn dilyn hyn, bydd y cynllun yn destun archwiliad gan arolygydd annibynnol a benodir gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd 2025 a disgwylir i'r Cyngor fabwysiadu'r cynllun yn derfynol yn gynnar yn 2026.

1.2 Cynllun Adneuo

Un o gamau allweddol cynhyrchu'r CDLI Newydd yw'r Cynllun Adneuo, sy'n nodi'r polisiau manwl, dyraniadau tir a chynigion datblygu ar gyfer y CDLI.

2. Tystiolaeth ac AEI y Cynllun Adneuo

Wrth baratoi CDLI mae ystod eang o dystiolaeth yn cael ei chasglu a'i hystyried gan yr awdurdod lleol, mewn cyd-destun lleol a chenedlaethol. Mae tystiolaeth a data sy'n ymwneud ag Iechyd a Lles wedi'i nodi ym Mhapur Technegol Cefndir Cynllunio Llefydd Iach y Cynllun Adneuo.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn tynnu sylw at rôl AEIau wrth gyfrannu at waith llunio cynlluniau lleol. Mae AEI yn broses sy'n cefnogi sefydliadau i asesu canlyniadau posibl eu penderfyniadau ar iechyd a lles pobl. Mae'n darparu fframwaith systematig ond hyblyg ac ymarferol y gellir ei ddefnyddio i ystyried effeithiau ehangach polisiau neu fentrau lleol a chenedlaethol a sut y gallant hwy, yn eu tro, effeithio ar iechyd pobl.

Gall AEI helpu i fewnosod mesurau i wneud y mwyaf o gyfleoedd i iechyd a lleihau unrhyw risgiau, a gall nodi unrhyw 'fylchau' y gellir eu llenwi wedyn. Gall AEI hefyd gynnig ffordd o

nodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd trwy nodi unrhyw grwpiau o fewn y boblogaeth y gall polisi neu gynllun effeithio arnynt yn arbennig.

Yn dilyn y fethodoleg systematig a ddisgrifir yn '[AEI a CDLIau: Pecyn Cymorth ar gyfer Ymarfer](#)' (WHIASU , 2021), penderfynwyd y defnyddid dull AEI Cyflym ar gyfer Cynllun Adneuo CDLI newydd Cyngor Caerdydd.

Prif bwrpas unrhyw AEI yw llunio cyfres o fesurau lliniaru neu argymhellion a fydd yn helpu i lywio datblygiad pellach cynllun, polisi neu fenter i leihau risgiau a sicrhau'r canlyniadau iechyd cadarnhaol mwyaf posibl.

3. Gweithdy AEI Cyfranogol Cyflym

3.1 Diben a phroses

Diben y gweithdy oedd:

- Nodi grwpiau poblogaeth penodol yng Nghaerdydd y gall polisiâu yn y Cynllun Adneuo ar gyfer y CDLI effeithio arnynt yn wahanol.
- Ystyried y polisiâu cynlluniau drafft mewn perthynas ag effeithiau posibl ar iechyd, yn gadarnhaol ac yn negyddol, a allai gael effaith ar iechyd a lles pobl leol, ac yn enwedig y grwpiau agored i niwed a nodir.
- Nodi a oes unrhyw ffyrdd posibl o leihau unrhyw effeithiau negyddol a sicrhau'r effeithiau cadarnhaol mwyaf posibl.

Roedd y gweithdy AEI yn ansoddol ei natur, a galluogodd y cyfranogwyr i rannu eu barn yn ystod y sesiwn. Casglwyd eu cyfraniadau mewn nodiadau byr. Cyn y sesiwn, rhoddwyd i'r cyfranogwyr y polisiâu CDLI allweddol a fyddai'n cael eu hystyried yn ystod y gweithdy, ynghyd â rhestr wirio'n tynnu sylw at rai o'r grwpiau poblogaeth a'r penderfyniadau ehangach a gynhyrchwyd gan WHIASU.

Anfonwyd gwahoddiadau i'r gweithdy at amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys adrannau gwahanol yn yr Awdurdod Lleol (Tai, Corfforaethol, Trafnidiaeth, Cymuned), Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Cyfoeth Naturiol Cymru, a'r trydydd sector.

3.2 Methodoleg y gweithdy

Cafodd y gweithdy ei drefnu a'i gynnal gan Gyngor Caerdydd a'i hwyluso gan Dîm Iechyd y Cyhoedd BIP Caerdydd a'r Fro. Cynhaliwyd y gweithdy ar fore 2 Mai 2024. Ceir rhestr o'r mynychwyr yn Atodiad 1 ac mae'r agenda ar gyfer y gweithdy yn Atodiad 2.

Dechreuodd y gweithdy gyda rhai cyflwyniadau gan Gyngor Caerdydd a WHIASU i ddarparu rhywfaint o oruchwyliaeth ar gyfer y sesiwn. Rhoddwyd cyflwyniad i'r AEI i'r cyfranogwyr ac yna trosolwg o'r CDLIN a'r Strategaeth a Ffeifrir. Rhoddodd trosolwg o anghenion iechyd y boblogaeth leol fewnwelediadau i'r cyfranogwyr o ran beth yw'r problemau iechyd allweddol yn y gymuned a ble maen nhw, gan amlygu hefyd yr ardaloedd mwyaf amddifad.

Yn dilyn y cyflwyniadau, cynhaliwyd trafodaethau gyda chyfranogwyr y gweithdy mewn dwy sesiwn. Yn gyntaf, i nodi'r grwpiau poblogaeth allweddol yng Nghaerdydd, ac yna i ystyried penderfyniadau ehangach iechyd a sut y gallai'r polisïau o fewn y Cynllun Adneuo effeithio ar iechyd a lles y boblogaeth.

4. Nodi'r grwpiau poblogaeth yr effeithir arnynt yn benodol

Cynhaliwyd gweithdy AEI ym mis Mawrth 2023 ar gyfer Strategaeth a Ffefrir y CDLI, a nododd cyfranogwyr yn y gweithdy hwn grwpiau agored i niwed ym mhoblogaeth Caerdydd a allai gael eu heffeithio fwyaf yng nghyd-destun Strategaeth a Ffefrir y CDLI.

Defnyddiwyd 'rhestr wirio Grwpiau Poblogaeth' WHIASU (Atodiad 3) i gynnig arweiniad ar gyfer y drafodaeth hon. Roedd cyfranogwyr y gweithdy yn gallu cyfrannu eu gwybodaeth benodol i ddeall proffil y gymuned, gan ychwanegu at ddata poblogaeth cyhoeddus a manylion demograffig. Er bod y cyfranogwyr yn cydnabod y byddai mwyafrif y grwpiau poblogaeth a restrir ar y rhestr wirio yn rhan o gymuned Caerdydd, roedd rhai grwpiau penodol y teimlwyd eu bod yn arbennig o nodedig mewn perthynas â'r CDLI.

4.1 Grwpiau agored i niwed a nodwyd:

Yn gysylltiedig ag oedran:

- Myfyrwyr – mae problemau penodol a godwyd yn cynnwys llety myfyrwyr gwael / myfyrwyr wedi'u gwasgaru ar draws ardal ddaearyddol ehangach / mwy o fyfyrwyr tramor nad ydynt yn gallu siarad Saesneg. Mae rhai grwpiau myfyrwyr yn fwy agored i niwed. Mae gan Gaerdydd tua 50,000 o fyfyrwyr felly mae'n boblogaeth sylweddol i'w hystyried
- Pobl hŷn - Mae gan Gaerdydd boblogaeth hŷn fawr sy'n tyfu, yn enwedig pobl 80+ oed, a fydd yn parhau i dyfu dros yr 20-30 mlynedd nesaf.
- Plant a phobl ifanc – mae angen ffocws penodol ar atal camdriniaeth
- Gofalwyr ifanc - gofalu am rieni.

Grwpiau sydd â risg uwch o brofi gwahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall:

- Pobl ddigartref - mae angen rhannu'r digartref yn fanylach (canolbwyntio ar bobl ddigartref angen uchel); pobl ddigartref allgáu lluosog; yn aml ag anghenion cymdeithasol cymhleth
- Gweithwyr rhyw
- Pobl sy'n camddefnyddio sylweddau
- Grŵp trawsryweddol a thrawsrywiol sydd â risg uwch o wahaniaethu
- Sipsiwn a Theithwyr – mae gan Gaerdydd nifer sylweddol o deuluoedd sipsiwn a theithwyr
- Ceiswyr lloches a ffoaduriaid
- Cymunedau lleiafrifoedd ethnig

Grwpiau a lleoliadau daearyddol:

- Pobl sy'n byw mewn llety dros dro / Air BNB.
- Arc ddeheuol Caerdydd gyda dangosyddion economaidd / iechyd gwael a lefelau uchel o amddifadedd

Roedd y cyfranogwyr yng ngweithdy AEI y Cynllun Adneuo yn cytuno gyda'r grwpiau poblogaeth a nodwyd yn 2023, gan ychwanegu'r canlynol:

- Pobl sy'n niwrowahanol
- Pobl ifanc mewn gofal neu sydd â phrofiad o ofal
- Gofalwyr cyflogedig a di-dâl

5. Crynodeb o ganfyddiadau'r arfarniad

Cafodd y grwpiau a nodwyd uchod eu hystyried gan gyfranogwyr y gweithdy yn ystod yr adran hon o'r sesiwn. Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r penderfynyddion a'r materion allweddol a godwyd wrth i'r grŵp weithio drwy'r fframwaith penderfynyddion ehangach (gweler Atodiad 3). Roedd yr holl gyfranogwyr yn gallu cyfrannu, a chanolbwyntiodd eu trafodaethau ar faterion allweddol yn ymwneud â sut roedd polisiau'r Cynllun Adneuo yn debygol o effeithio ar y penderfynyddion, a/neu'r grwpiau poblogaeth allweddol a nodwyd.

5.1 Ymddygiadau sy'n effeithio ar iechyd

Roedd trafodaeth yn ymwneud â gallu pobl yng Nghaerdydd i fod yn gorfforol actif, manteisio ar gyfleoedd teithio llesol, a bwyta bwyd iach.

Cytunwyd bod y cynllun yn cynnwys pwyslais ar deithio llesol, a blaenoriaethu beicio a cherdded dros y defnydd o geir (Polisi T1), ond teimlwyd y gellid ehangu'r diffiniad o ddulliau teithio llesol i gynnwys eraill fel [sglefrfyrdau](#) neu sgwteri.

Sylwadau ar bolisi **T1: blaenoriaethu cerdded a beicio**

- Nid yw llwybrau beicio a cherdded ar y cyd bob amser yn briodol, felly dylid eu gwahanu lle bynnag y bo modd.
- Angen sicrhau diogelwch cerddwyr, rhag beiciau trydan cyflym ar lwybrau cerdded a rennir, ac wrth safleoedd bysus lle mae teithwyr yn dod oddi ar fysus yn syth i lonydd beicio. Pryder penodol i bobl hŷn neu anabl.
- Mae angen goleuadau da ar lwybrau beicio er mwyn iddynt allu cael eu defnyddio ar ôl iddi dywyllu.
- Angen ystyried anghenion mynediad defnyddwyr anabl i lwybrau beicio a cherdded
- Angen ystyried defnyddio deunyddiau palmant sy'n gwahaniaethu lle rydych chi ar yr arwynebau a rennir
- Polisi beicio i'r ysgol heb gael sylw penodol yn y polisi hwn

Sylwadau ar bolisi **HF1: Iechyd, Lles a Datblygiad**

- Angen cyfeirio at fannau cadw beiciau 'diogel'
- Ystyried capasiti cadw beiciau yn y dyfodol ac a ellid darparu ardaloedd cadw beiciau mawr penodol gan y Cyngor

Sylwadau ar **R8: Defnyddiau Bwyd a Diod**

- Pryder am ddiffyg rheolaeth bosibl o siopau tecawe bwyd poeth ger ysgolion
- Diffyg mynediad at opsiynau bwyd iach a fforddiadwy, mewn ardaloedd difreintiedig

5.2 Dylanwadau cymdeithasol a chymunedol ar iechyd

Canolbwyntiodd yr adran hon ar greu cymdogaethau sy'n galluogi cymunedau cydlynol â chysylltiadau da.

5.3 Lles Meddyliol

Cafwyd ychydig o drafod ynghylch y penderfynydd hwn gan fod y rhan fwyaf o'r pwyntiau yn cael eu hystyried yn yr adran uchod.

Effeithiau cadarnhaol posibl a nodwyd:

- Byddai darparu datblygiadau sy'n deall dementia (gan ddefnyddio [Canllawiau RTPI](#)), goleuadau da a rampiau yn hytrach na grisiau yn cefnogi pobl â dementia i fynd o gwmpas eu hamgylchedd lleol ond byddai hefyd o fudd i'r gymuned yn ehangach.

Effeithiau negyddol / anfwriadol posibl:

- Gorbryder cymdeithasol - ddim yn gallu defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus felly'n dibynnu ar dacsis yn hytrach - mae hyn yn arwain at fwy o allgáu cymdeithasol. Mae angen i drafnidiaeth fod yn ddiogel, yn hawdd ac yn ddibynadwy

5.4 Amodau byw ac amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd

Nodwyd nifer o effeithiau cadarnhaol y bydd polisïau'r CDLI yn eu galluogi, gan gynnwys ynghylch diogelwch cymunedol, ansawdd aer, ansawdd tai, sŵn a diogelwch ar y ffyrdd. Mae Polisi C3 yn ystyried yn benodol yr angen i ddatblygiadau greu amgylchedd diogel, ac mae polisi OS2 yn amlinellu'r nod o sicrhau darpariaeth neu wella cyfleusterau mannau agored, chwarae a chwaraeon. Mae polisïau HF2 a HF3 yn canolbwyntio ar ddarparu lle ar gyfer tyfu bwyd sy'n elfen allweddol o alluogi amgylchedd cadarnhaol ar gyfer iechyd.

Sylwadau ar bolisi **C3: Diogelwch cymunedol / creu amgylcheddau diogel**

- Angen diffinio beth yw ystyr 'safon dda o oleuadau'

- Dylai cynigion ystyried a yw anghenion pob grŵp poblogaeth a fydd yn defnyddio datblygiad wedi'u hystyried, e.e. efallai y bydd gan fenywod Mwslimaidd anghenion penodol i'w galluogi i deimlo'n ddiogel mewn amgylchedd
- A ddylai mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod / cam-drin domestig gael ei gynnwys yn y polisi hwn?
- Angen ystyried goblygiadau'r [Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol](#) ar gyfer y CDLI

Sylwadau ar bolisi **HF2: Darparu rhandiroedd**

- Dylai'r dewis fod ar gyfer darpariaeth rhandiroedd ar y safle i sicrhau darpariaeth

Sylwadau ar bolisi **HF3: darparu gofod tyfu bwyd mewn datblygiadau newydd**

- Dylid canolbwyntio mwy ar fannau tyfu bwyd cymunedol yn hytrach nag ar fannau tyfu unigol gan y bydd hyn yn meithrin cydlyniant cymdeithasol

Sylwadau ar bolisi **OS2: darparu mannau agored, hamdden awyr agored, chwarae i blant a chwaraeon**

- Mae angen cynllunio mannau agored gan ystyried anghenion lleol, er enghraifft menywod, plant, pobl anabl,
- A ellid gwahanu chwarae plant oddi wrth chwaraeon gan eu bod yn faterion ar wahân
- Angen cydnabod bod cyfle plant i chwarae mewn ardaloedd anffurfiol yr un mor bwysig ag mewn ardaloedd chwarae ffurfiol
- Mae cynnal a chadw ardaloedd chwarae ffurfiol yn ddrud
- Angen ystyried goblygiadau [Strategaeth Chwarae](#) ac [Asesiad Digonolrwydd Chwarae](#) y Cyngor
- Argymhell bod CCA Chwarae yn cael ei ddatblygu i roi manylion am y disgwyliadau ar gyfer darparu cyfleoedd i chwarae

5.5 Mynediad i wasanaethau ac ansawdd gwasanaethau

Adolygwyd Polisi C1 gan ei fod yn ymwneud ag annog cyfleusterau cymunedol newydd a gwell o fewn datblygiadau. Roedd C4 yn canolbwyntio ar gynllunio ar gyfer ysgolion, sy'n gyfleusterau hanfodol ar gyfer cymuned leol.

Mae Polisi HF1 yn cynnwys darparu cyfleusterau lleol sy'n galluogi mynediad at wasanaethau cymunedol, gofal iechyd a gofal cymdeithasol, a ystyriwyd yn gadarnhaol. Mae'r polisi hefyd yn cynnwys ystyried cyfleusterau gofal iechyd presennol a gofyniad i helpu i ddarparu cyfleusterau ychwanegol lle bo angen. Cafodd hyn gefnogaeth dda gan gyfranogwyr, er awgrymwyd y gellid gwneud hyn gyda chyfleusterau cymunedol nid dim ond iechyd.

Sylwadau ar bolisi **C1: Cyfleusterau cymunedol**

- Mae angen dealltwriaeth fanwl o'r ardal y bwriedir darparu cyfleuster cymunedol ynddi (gellid cyflawni hyn drwy ymgymryd ag AEI)

- Angen diffinio beth yw ystyr 'hygyrch' a phwy y mae hyn yn berthnasol iddo. Gall fod gan aelodau o gymunedau lleol anghenion gwahanol iawn
- Gellir uno cyfleusterau cymunedol a chyfleusterau iechyd, a chreu cyfleusterau amlbwrpas

Sylwadau ar bolisi **C4: Cynllunio ar gyfer ysgolion**

- Ystyried defnydd cymunedol posibl o gaeau chwarae / meysydd chwarae ysgolion y tu allan i oriau ysgol
- Bydd cael cyfleusterau o ansawdd da yn denu pobl i ardal
- Angen ystyried effaith defnyddio cyfleusterau ysgol ar amwynder preswyl amgylchynol e.e. sŵn
- Angen sicrhau bod safleoedd yn hygyrch o bob rhan o'r ardal breswyl gyfagos i sicrhau nad yw anghydraddoldebau'n cael eu hehangu

Sylwadau ar bolisi **HF1: Iechyd, Lles a Datblygiad**

- Dylai AEI a gynhelir ar gyfer datblygiadau mawr lle rhoddir ystyriaeth i ofynion gwasanaeth gofal iechyd hefyd ystyried yr effaith ar anghenion staffio mewn cyfleusterau iechyd lleol. Byddai angen trafodaeth gyda'r bwrdd iechyd lleol yn ystod y cam AEI
- Nodwch fod cyfleusterau gofal iechyd yn cyfeirio at ysgolion cynradd, uwchradd a chymunedol
- Newid geiriad pwynt vi i '*ystyried yn gynhwysfawr gapasiti'r cyfleusterau gofal iechyd presennol...*'
- Ystyried a ddylai'r gofyniad AEI fod yn berthnasol i ddatblygiadau ysgol

6. Casgliad

Teimlwyd y bydd y Polisiâu manwl yn y Cynllun Adnewo a adolygwyd, yn gyffredinol yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod yna elfennau o rai o'r polisiâu y gellid eu cryfhau i sicrhau eu bod yn cael effaith gadarnhaol, a bod datblygiadau yn ystyried gwahanol anghenion grwpiau cymunedol.

Teimlai'r rhai a oedd yn bresennol fod y gweithdy wedi rhoi cyfle da i ystyried anghenion y boblogaeth leol yn fanylach ac amlygu materion penodol yn ymwneud â'r penderfyniadau ehangach y gellid eu dylanwadu gan y Polisiâu Cynllunio ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

ATODIAD 1: Yn bresennol

Stuart Williams	Tîm CDLI Cyngor Caerdydd
Matthew Williams	Tîm CDLI Cyngor Caerdydd
Cheryl Williams	Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Alison Draper	Cyngor Caerdydd
Alex Wood	Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Louise Powell	Datblygu a Galluogi Tai, Cyngor Caerdydd
Lee Patterson	Dinas sy'n Dda i Blant, Cyngor Caerdydd
Jayne Hitchings	Therapiau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Rob Kidd	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Eleri Crudgington	Bwrdd Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolraddol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Fiona Gibson	Cyngor Caerdydd
Rob Wilkinson	Cynllunio Strategol – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Claire Hartrey	Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir
Will Lane	Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir
Liz Lambert	Cyngor Caerdydd
Mymuna Soleman	Prifysgol Caerdydd

ATODIAD 2: Agenda

Amser	Gweithgaredd	Siaradwr
09.00	Cofrestru (te / coffi ar gael)	
09:15	Croeso a chyflwyniad i'r Gweithdy	Cheryl Williams: Prif Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd, BIP Caerdydd a'r Fro
09:25	Cyflwyniad: Trosolwg o'r Cynllun Adneuo	Stuart Williams Arweinydd Grŵp (Polisi), Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd, Cyngor Caerdydd
09:45	Cyflwyniad: Dangosyddion iechyd a demograffeg poblogaeth allweddol ar gyfer Caerdydd	Cheryl Williams: Prif Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd, BIP Caerdydd a'r Fro
10:00	Cyflwyniad: Trosolwg o AEI ac adolygiad o'r gweithdy AEI blaenorol	Cheryl Williams: Prif Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd, BIP Caerdydd a'r Fro
10.15	EGWYL	
10.30	Gweithgaredd Gweithdy: nodi polisiâu'r Cynllun Adneuo ac effeithiau posibl ar iechyd	Grwpiau wedi'u hwyluso
11.45	EGWYL	
12:00	Gweithgaredd gweithdy 2: argymhellion ar ffyrdd o wneud y mwyaf o effeithiau neu liniaru effeithiau	Grwpiau wedi'u hwyluso
12:55	Sylwadau terfynol a chloi	Cheryl Williams/ Stuart Williams
13:00	Diwedd	

ATODIAD 3: Grwpiau poblogaeth WHIASU / rhestr wirio penderfynyddion ehangach



Rhestr Wirio Grwpiau Poblogaeth

Mae'r rhestr wirio hon i'w defnyddio yn ystod Proses Sgrinio ac Arfarnu HIA er mwyn nodi'r grwpiau poblogaeth y gellid cael mwy o effaith arnynt nag eraill drwy bolisi/prosiect/cynnig.

Mae'r grwpiau a restrir isod wedi'u nodi fel rhai sy'n fwy agored i ganlyniadau iechyd a llesiant gwaeth (anghydraddoldebau iechyd) ac felly mae'n bwysig eu hystyried wrth Sgrinio ac Arfarnu HIA. Mewn HIA, bydd y grwpiau y nodwyd eu bod yn fwy sensitif i effeithiau posibl yn dibynnu ar nodweddion y boblogaeth leol, y cyd-destun, a natur y cynnig ei hun.

Canllaw yn unig yw'r rhestr hon felly ac nid yw'n hollgynhwysol. Gall fod yn briodol canolbwyntio ar grwpiau sydd ag anffanteision lluosog. Nodwch hefyd y gall terminoleg newid dros amser/cyhoeddiad.

Grwpiau cysylltiedig â rhyw/rhywedd

- Benywaidd
- Gwrywaidd
- Trawsryweddol
- Arall (*rhoch fanylion*)

Grwpiau cysylltiedig ag oedran (*gellid nodi ystod oedran ar gyfer ystyriaeth arbennig*)

- Plant a phobl ifanc
- Blynyddoedd cynnar (gan gynnwys beichiogrwydd a blwyddyn gyntaf bywyd)
- Poblogaeth oedolion yn gyffredinol
- Pobl hyn

Grwpiau sy'n wynebu risg uwch o wahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall

- Pobl dduon a grwpiau lleiafrifoedd ethnig (*rhoch fanylion*)
- Gofalwyr
- Cyn-droseddwy
- Sipsiwn a Theithwyr
- Y Digartref
- Iaith/diwyllyant (*rhoch fanylion*)
- Pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol
- Plant sy'n derbyn gofal
- Pobl sy'n ceisio lloches
- Pobl â chyflyrau iechyd hirdymor
- Pobl â chyflyrau iechyd meddwl
- Pobl sydd ag anableddau/anawsterau corfforol, synhwyraidd neu ddysgu
- Grwpiau ffoaduriaid
- Grwpiau crefyddol (*rhoch fanylion*)
- Teuluoedd rhiant unigol
- Cyn-filwyr

Grwpiau cysylltiedig ag incwm

- Economaidd anweithgar
- Pobl ar incwm isel
- Pobl sy'n methu gweithio oherwydd salwch
- Di-waith/heb waith

Grwpiau a/neu leoliadau daearyddol (*sylw - gall hyn fod yn gyfuniad o ffactorau*)

- Pobl mewn lleoliadau allweddol: gweithleoedd/ysgolion/ysbytai/cartrefi gofal/carchardai
- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd lle ceir dangosyddion gwael o ran yr economi a/neu iechyd
- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, ynysig neu orbolog
- Pobl sy'n methu â chael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau

© 2020 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cellir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ cyn belled â'i fod yn cael ei wneud yn gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Cydnabyddiaeth i'w nodi i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae hawlfraint yn y drefn delpograffyddol, y dyluniad a'r gosodiad yn perthyn i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.